

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10
Gorffennaf 2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD LLUN, 16 GORFFENNAF 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL PWYLLGOR 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN I – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN BUDDIANNAU

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 14eg Mehefin 2012 (copi'n amgaeedig).

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

5 DYRANNU ADNODDAU YCHWANEGOL I ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG MEWN YSGOLION CYNRADD (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyllid Addysg (copi'n amgaeedig) yn manylu'r cynnydd ar adolygu dyrannu adnoddau ychwanegol i Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn Ysgolion Cynradd.

9.35 a.m.

RHAN I

6 ADOLYGU GWASANAETHAU DYDD YNG NGOGLEDD Y SIR (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (copi'n amgaeedig) yn rhoi diweddariad ar adolygu Gwasanaethau Dydd yng Ngogledd y Sir, ac yn cynghori ar yr opsiwn a ffefrir er mwyn darparu gwasanaethau yn y dyfodol, ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

10.10a.m.

TORIAD

7 PROSIECTAU SEILWAITH MAWR: DYRANNU ADNODDAU AC YMGYSYLLTU A' R GYMUNED (Tudalennau 31 - 50)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Cynllunio: Cynlluniau Egni Adnewyddadwy (copi'n amgaeedig) sy'n ceisio arweiniad ar y lefel o ymgysylltu cymunedol ac adnoddau ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

10.50 a.m.

8 DYRANNU CRONFA AELODAU ARDAL (Tudalennau 51 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi trosolwg ar y cyllid a ddyrannwyd i alluogi i Grwpiau Aelodau Ardal gefnogi prosiectau blaenoriaeth yn eu hardaloedd ac yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu llwyddiant y gronfa.

11.25 a.m.

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 61 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (copi'n amgaeedig) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor i'r dyfodol ac yn diweddarau'r aelodau ar faterion perthnasol.

12.05p.m.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy-Davies
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James

Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Eitem Rhif Agenda 5 yn unig)

Ms C. Burgess
Mrs. G. Greenland

Ms. D. Houghton
Dr. D. Marjoram

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned